Y Comisiwn Etholiadol

Cynllun corfforaethol 2010–11 hyd 2014–15

Hygrededd a hyder cyhoeddus

HC 465

Y
Comisiwn
Etholiadol

Cynllun corfforaethol 2010–11 hyd 2014–15

© Y Comisiwn Etholiadol 2010

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm
o 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Cynnwys

Rhagair	2
Nod, gwerthoedd, amcanion a blaenoriaethau	5
Gweithio ar draws y DU	8
Amcan 1 – Tryloywder a hygrededd cyllid pleidiau ac etholiadau	10
Amcan 2 – Etholiadau, refferenda a chofrestru etholiadol a gynhelir yn dda	22
Sut rydym yn gweithio	36
Etholiadau a refferenda yn ystod cyfnod y cynllun hwn	42
Systemau etholiadol yn y DU	44
Cysylltu â ni	46

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

Textphone: 18001 020 7271 0500

Ebost: publications@electoralcommission.org.uk

Rhagair

Mae'r cynllun hwn yn nodi blaenoriaethau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer y pum mlynedd nesaf a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i gyflawni ein nod o hygrededd a hyder y cyhoedd ym mhroses ddemocrataidd y DU.

Mae gallu pobl i ddewis rhwng gwahanol farn pleidiau gwleidyddol drwy etholiadau diogel sy'n syml, yn hygyrch ac yn ddiogel yn sail i'n democratiaeth. Mae angen i bleidleiswyr gael hyder yn y ffordd y mae ein system etholiadol yn gweithio, ac rydym yn rhoi buddiannau pleidleiswyr wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff DU-gyfan sy'n gwasanaethu pleidleiswyr ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym yn cefnogi etholiadau i Seneddau, Cynulliadau ac awdurdodau lleol ar draws y DU yn ogystal ag i Seneddau San Steffan ac Ewrop. Rydym yn sicrhau ein bod yn atebol i gynrychiolwyr etholedig ar draws y DU ac yn cynnal cyfathrebu da gyda phleidiau gwleidyddol.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn dathlu ei 10 mlwyddiant yn ystod 2010–11. Mae'r degawd diwethaf wedi gweld newidiadau pwysig. Rydym wedi gweld newid sylweddol mewn tryloywder ynghylch rhoddion gwleidyddol – erbyn 31 Rhagfyr 2009 roeddem wedi cyhoeddi manylion dros 25,000 o roddion gwahanol i bleidiau gwleidyddol, sef cyfanswm o dros £363 miliwn. Cododd nifer y pleidiau gwleidyddol a gofrestrwyd gyda ni o 122 ym mis Chwefror 2001 i 384 ym mis Rhagfyr 2009 – mae gan 18 o'r pleidiau hyn gynrychiolwyr etholedig yn Seneddau'r DU, yr Alban ac Ewrop a Chynulliadau Cymru a Gogledd Iwerddon, gydag eraill wedi'u cynrychioli mewn awdurdodau lleol ar draws y DU.

Rydym wedi adrodd ar 27 o etholiadau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, yn cynnwys etholiadau cyffredinol 2001 a 2005 y DU, dau etholiad yr un i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon, tri etholiad i Awdurdod Llundain Fwyaf a dau etholiad i Senedd Ewrop. Rydym wedi cynhyrchu cannoedd o ddarnau o arweiniad i'r rheiny sy'n cynnal etholiadau, gan sicrhau bod ganddynt fynediad i gyngor clir a chyson. Goruchwyliwyd refferendwm 2004 ar gynulliad rhanbarthol i Ogledd Ddwyrain Lloegr gennym. Mae'r degawd hwn o brofiad a gwybodaeth am ddigwyddiadau etholiadol y DU yn sicrhau y gallwn ymateb yn hyderus i unrhyw refferenda tebygol yn ystod y pum mlynedd nesaf, a chyflawni ein cyfrifoldebau i weithredu fel Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer unrhyw refferenda a gynhelir yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Daeth Deddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006 â llawer o agweddau ar sut y mae etholiadau yn cael eu cynnal yn unol â disgwyliadau pleidleiswyr yn yr unfed ganrif ar hugain. Ehangodd hefyd ein rôl i ganiatáu i ni osod safonau perfformiad ar gyfer y Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) a Swyddogion Canlyniadau (ROs) sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru. Rydym yn disgwyl gweld Gogledd Iwerddon yn dod i mewn i'r fframwaith safonau perfformiad hwnnw yn fuan. Hefyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PPE) o'r diwedd ar y broses o symud Lloegr, yr Alban a Chymru i ffwrdd o'r system o gofrestru etholiadol yn ôl aelwyd – yn hytrach, bydd pob etholwr yn gyfrifol am eu cofnod eu hunain ar y gofrestr etholiadol o dan system o gofrestru etholiadol unigol. Mae hwn yn newid sylweddol iawn am rydym yn llwyr ymroddedig i'w lwyddiant.

Ymatebodd y Ddeddf PPE i'n galwadau am ddiwygio'n pwerau a sancsiynau rheoleiddiol. Paratôdd y ffordd ar gyfer fframwaith fyddai'n ein gosod ochr yn ochr â rheoleiddwyr modern eraill. Edrychwn ymlaen at gytundeb cynnar y Senedd i'r ddeddfwriaeth eilaidd fydd yn rhoi'r fframwaith newydd ar waith.

Newidiodd y Ddeddf PPE ein trefniadau llywodraethu ein hunain hefyd. Bydd pedwar Comisiynydd Etholiadol newydd, wedi'u henwebu gan bleidiau gwleidyddol, yn ymuno â Bwrdd presennol y Comisiwn maes o law. Disgwyliwn y bydd y Comisiynwyr newydd hyn yn dod â phrofiad pleidiau gwleidyddol diweddar i'r Bwrdd.

Daeth Pwyllgor Ffiniau Lloegr yn bwyllgor statudol y Comisiwn Etholiadol ym mis Ebrill 2002 – yn flaenorol y Comisiwn Llywodraeth Leol dros Loegr ydoedd. Cafwyd llawer o ddatblygiadau ers hynny yn effeithio ar lywodraeth leol yn Lloegr, ac mae Deddf Democratiaeth Leol, Datblygiad Economaidd ac Adeiladu 2009 yn ail-sefydlu'r Pwyllgor Ffiniau fel corff ar wahân, annibynnol – y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol dros Loegr – o Ebrill 2010.

Wrth edrych ymlaen, mae ein ffocws yn parhau ar reoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau yn effeithiol, a system etholiadol a gynhelir yn dda. Mae ein cynlluniau yn ystyried yr hyn y mae eraill wedi dweud wrthym am yr hyn yr ydym yn ei wneud yn dda a lle mae angen i ni wella. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, rydym hefyd wedi edrych yn ofalus ar ein costau, gan leihau ein costau craidd dros y pum mlynedd nesaf.

Byddwn yn dilyn egwyddorion gwell rheoleiddio wrth ymdrin â chyllid pleidiau ac etholiadau. Rydym am helpu'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio i gael pethau'n gywir. Pan nad yw pobl yn dilyn y rheolau, byddwn yn defnyddio ein pwerau gorfodi yn effeithiol ac yn gymesurol.

Er mwyn cefnogi system etholiadol a gynhelir yn dda, rydym wedi cwblhau asesiad llawn ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru o sut mae EROau a ROau yn cyflawni yn erbyn ein safonau perfformiad.

Roeddem yn falch fod yr holl EROau a ROau wedi cwblhau eu hasesiadau yn erbyn ein safonau perfformiad yn dilyn canfasau blynyddol hydref 2008 a hydref 2009 (EROau) ac etholiadau Mehefin 2009 (ROau).

Gwellodd perfformiad EROau rhwng 2008 a 2009 ar draws pob un o'r pedwar maes pwnc a gwmpesir gan ein safonau. Yn 2009, fe wnaeth 96% o EROau gwrdd â'r safonau neu ragori arnynt mewn perthynas â chyflawnrwydd a chywirdeb cofrestri etholiadol, o'u cymharu ag 85% a wnaeth hynny yn 2008.

[1] Yn yr Alban, mae swyddi ERO a RO yn swyddogaethau cwbl ar wahân.

Roedd perfformiad ar ei wannaf mewn perthynas â hyrwyddo cyfranogiad. Yn 2009, nid oedd 41% o EROau yn cwrdd â'r safon mewn perthynas ag ymwybyddiaeth y cyhoedd. O'r rhain, methodd 90% y safon yn y ddwy flynedd ac roedd bron i draean o'r rheiny yng Nghymru a Lloegr[1] hefyd islaw'r safon gyfatebol ar gyfer ROau.

Mae diffyg cynllunio ffurfiol yn parhau yn faes sy'n achosi pryder. Cafwyd gwelliant mewn perfformiad ar gyfer y pum safon sy'n gofyn am gynllun ysgrifenedig, ond mae lle i wella ymhellach. Mae diffyg cynllunio ffurfiol yn gwneud craffu yn anodd ac mae atebolrwydd yn cael ei leihau. Mewn timau bach, mae cynlluniau a strategaethau ysgrifenedig yn lliniaru effaith absenoldebau neu ymadawiadau staff. Nid ydym yn ystyried bod y rhesymau a roddir yn gyffredin dros absenoldeb cynlluniau ysgrifenedig yn dileu'r angen amdanynt.

Fe wnaeth naw allan o 10 Swyddog Canlyniadau Lleol (LROau) ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ym Mehefin 2009 gwrdd â phob un o'r tair safon perfformiad a osodwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â chynllunio a threfnu'r etholiadau. Fodd bynnag cawsom ein siomi unwaith eto mewn perthynas â hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd a

chyfranogiad, lle roedd chwarter o LROau yn cwrdd ag un neu ddwy o'r safonau yn unig. Nodwyd gennym hefyd nad oedd un mewn pump LROau, 73 i gyd, yn cwrdd â'r safon perfformiad mewn perthynas â nodi a rheoli'r risg o gamymddygiad etholiadol, yn bennaf oherwydd nad oedd cynlluniau ysgrifenedig ffurfiol yn eu lle.

Byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl EROau a ROau yn cwrdd â'r safonau, ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, ac yn fuan, yr ydym yn ei ddisgwyl, yng Ngogledd Iwerddon hefyd.

Does neb – ac yn sicr nid y Comisiwn Etholiadol – yn bychanu graddfa'r newid sydd ynghlwm wrth symud o'r system bresennol o gofrestru etholiadol yn ôl aelwyd i system fwy cywir a diogel o gofrestru etholiadol unigol. Rydym wedi galw am y newid hwn ers 2003 a bydd gennym rôl allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau ei lwyddiant. Byddwn yn cynghori Llywodraeth y DU, EROau lleol ac eraill sy'n ymroddedig i bwysigrwydd ein proses etholiadol ar sut orau i helpu pawb sy'n gymwys er mwyn sicrhau eu bod wedi'u cofrestru'n gywir o dan y system newydd. Bob blwyddyn byddwn yn adrodd ar ba mor dda mae'r newid yn cael ei gyflawni. Ym mis Gorffennaf 2014 ein gwaith fydd gwneud adroddiad ffurfiol i Lywodraeth y DU ar a yw Lloegr, yr Alban a Chymru yn barod i wneud y symudiad olaf i ffwrdd o'r system cofrestru aelwydydd.

Bydd y pum mlynedd nesaf yn rhai heriol i bawb sy'n ymwneud â democratiaeth yn y DU. Mae'r cynllun hwn yn amlygu lle y credwn y bydd materion penodol ar gyfer cyllid pleidiau ac etholiadau, a'r broses etholiadol, dros y cyfnod hwn. Ym mhob maes rydym wedi nodi sut byddwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn a'r perthnasau y byddwn yn eu meithrin er mwyn cyflwyno'n hamcanion.

Nod, gwerthoedd, amcanion a blaenoriaethau

Nod

Hygrededd ym mhroses ddemocrataidd y DU a hyder y cyhoedd ynddi

Gwerthoedd

Teg – rydym yn deg yn y ffordd yr ydym yn trin ein gilydd a'r bobl a'r sefydliadau yr ydym yn ymdrin â hwy

Diduedd – rydym yn ddiduedd yn ein penderfyniadau a'n gweithredoedd

Tryloywder – rydym yn dryloyw yn y ffordd yr ydym yn gweithio

Amcanion

Amcan 1
Tryloywder a hygrededd cyllid pleidiau ac etholiadau

Amcan 2
Etholiadau, refferenda a chofrestru etholiadol a gynhelir yn dda

Amcan 1

Tryloywder a hygrededd cyllid pleidiau ac etholiadau

Ein blaenoriaethau

1. Rydym am sicrhau bod y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio yn deall y rheolau – yn cynnwys y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf PPE, a'r rheolau sy'n llywodraethu gwariant pleidiau ac ymgeiswyr ac adrodd am roddion mewn etholiadau cyffredinol y DU – a'u bod yn hyderus y byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad iddynt yn ôl yr angen.

2. Rydym am alluogi ymwneud gwleidyddol drwy wasanaeth cofrestru pleidiau effeithiol, er mwyn i bawb sy'n dymuno cofrestru er mwyn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth allu gwneud hynny heb unrhyw feichiau neu oedi diangen.

3. Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus fod ganddynt wybodaeth o ansawdd da am roddion, gwariant ymgyrchu a chyllid pleidiau, yn enwedig mewn perthynas â'r prif etholiadau ar draws y DU.

4. Rydym am gynnal dealltwriaeth glir o'r bylchau posib yn y system reoleiddio a sut i fynd i'r afael â hwy. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi gofynion aneffeithlon sy'n gosod beichiau anorfod ar y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â meysydd lle mae'r rheoliadau presennol yn annigonol.

5. Rydym am i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio gyflwyno'u holl ffurflenni statudol yn brydlon, ac i'r ffurflenni hynny fod yn gywir, er mwyn i bleidleiswyr gael gwybodaeth amserol a dibynadwy.

6. Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus fod rhoddion nas caniateir i bleidiau ac unigolion yn cael eu nodi'n effeithiol a'u diddymu o'r system yn gyflym.

7. Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus y bydd y rheiny sy'n methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn wynebu archwiliadau teg, trylwyr a chymesur sy'n arwain at ddeilliannau priodol. Rydym am gynnal ein gweithgarwch gorfodi yn drylwyr ond heb oedi, fel nad yw unrhyw un dan sylw yn aros yn hwy nag y mae angen am benderfyniadau.

.

Amcan 2

Etholiadau, refferenda a chofrestru etholiadol a gynhelir yn dda

Ein blaenoriaethau

1. Rydym am weld system o gofrestru etholiadol unigol yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn Lloegr, yr Alban a Chymru i sicrhau bod pobl yn cael eu gwasanaethu gan broses gofrestru effeithiol, diogel a chyfleus.

2. Rydym am sicrhau nad oes unrhyw rwystrau anorfod i bobl gofrestru i bleidleisio, a sicrhau bod polisi ac arfer cofrestru etholiadol wedi'i gefnogi gan dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio.

3. Rydym am wneud yn siwr fod pobl yn gwybod sut i gofrestru a'u hannog i wneud hynny, a sicrhau bod pobl yn gwybod sut i fwrw eu pleidlais, fel bod unrhyw un sydd â'r hawl i gymryd rhan mewn etholiadau yn gallu gwneud hynny.

4. Rydym am wneud yn siwr bod pobl yn hyderus bod etholiadau a refferenda ar draws y DU wedi'u gweinyddu yn effeithiol ac yn ddiogel, drwy werthuso ac adrodd ar weinyddiaeth etholiadol a nodi meysydd lle mae angen gwelliannau i gyfraith ac arfer etholiadol.

5. Rydym am wneud yn siwr bod gan y rheiny sy'n cynnal cofrestru etholiadol ac etholiadau fynediad i arweiniad clir, cynhwysfawr a defnyddiol i sicrhau cysondeb a chefnogi gwelliannau mewn arfer a pherfformiad.

6. Rydym am i bobl ar draws y DU fod yn hyderus fod cofrestru etholiadol ac etholiadau yn cael eu cynnal yn dda gan ddarparu gwybodaeth wrthrychol am berfformiad, herio perfformiad gwael ac amlygu arfer da i wella rheoli etholiadau.

Gweithio ar draws y DU

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff DU-gyfan ac mae ganddo rôl hirsefydlog yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn sicrhau bod ein hamcanion allweddol yn cael eu cyflwyno ar draws y gwahanol systemau gwleidyddol ac etholiadol yn y DU. Mae gennym gysylltiadau cryf â llywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig a seneddau yn San Steffan, Caeredin, Caerdydd a Belfast. Rydym yn cynnal perthnasau gwaith da gyda phleidiau gwleidyddol drwy ein panelau pleidiau gwleidyddol a gyda gweinyddwyr etholiadol drwy gyswllt uniongyrchol, hyfforddiant a seminarau.

Yn ystod 2010–11, y blaenoriaethau ar gyfer ein swyddfeydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon fydd cyflwyno ein hamcanion ar gyllid pleidiau ac etholiadau a phroses etholiadol a gynhelir yn dda fel y nodwyd yn y cynllun hwn. Yn benodol:

Yr Alban

Yn yr Alban, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Rheoli Etholiadau ac yn gobeithio gweld hyn yn dod yn rhywbeth mwy parhaol er mwyn cefnogi gwell gweinyddiaeth etholiadol yn gyffredinol, etholiad cyffredinol y DU, ac yn y flwyddyn ganlynol, etholiadau i Senedd yr Alban. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol yn yr Alban i sicrhau bod y pwerau a'r sancsiynau newydd sydd gennym o dan Ddeddf PPE wedi'u deall yn dda gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio.

Cymru

Yng Nghymru, byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynllunio Etholiadau a Swyddogion Canlyniadau ar gynlluniau ar gyfer yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2011. Bydd ein rôl yn cynnwys craffu ffurfiol mewn perthynas â deddfwriaeth a ddiweddarwyd ar gynnal yr etholiadau. Byddwn yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol yng Nghymru i sicrhau bod y pwerau a'r sancsiynau newydd sydd gennym o dan Ddeddf PPE wedi'u deall yn dda gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio. Yn dilyn adroddiad Confensiwn Cymru gyfan, rydym yn barod i gefnogi unrhyw refferendwm ar bwerau deddfu pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Etholiadol wrth gynllunio ar gyfer etholiadau yn 2011 i Gynulliad Gogledd Iwerddon ac i'r awdurdodau lleol a ailstrwythurwyd. Byddwn hefyd yn gweithio tuag at ymestyn safonau perfformiad ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadau i Ogledd Iwerddon ac yn asesu perfformiad y Prif Swyddog Etholiadol yn erbyn y safonau hyn. Byddwn yn cefnogi'r Prif Swyddog Etholiadol wrth iddo ymgymryd â chynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon i gefnogi cofrestru ac etholiadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda phleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon i sicrhau bod y pwerau a'r sancsiynau newydd sydd gennym o dan Ddeddf PPE wedi'u deall yn dda gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio. Yn dilyn ymgynghoriad, byddwn yn gweinyddu unrhyw newidiadau a gytunwyd gan Lywodraeth y DU i gynllun rhoddion a benthyciadau Gogledd Iwerddon.

Amcan 1

Tryloywder a hygrededd mewn cyllid pleidiau ac etholiadau

Rydym am i bobl drwy'r DU gyfan fod yn hyderus:

- bod tryloywder am gyllid pleidiau ac etholiadau er mwyn i bobl wybod o ble mae arian yn dod a sut y caiff ei wario
- bod y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau yn cael eu dilyn, ac yr ymdrinnir â'r rheiny nad ydynt yn eu dilyn yn briodol ac yn effeithiol

Cyflwyniad

Mae'n hanfodol ar gyfer iechyd ein democratiaeth bod pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn gallu datblygu polisi a throsglwyddo eu neges i bleidleiswyr. Er mwyn gwneud hyn, mae angen iddynt ddenu gwirfoddolwyr fel swyddogion ac ymgyrchwyr pleidiau, a chodi arian i ariannu'u gweithgareddau.

Fel rheoleiddiwr cyllid pleidiau ac etholiadau, rydym am i bobl gael hyder yn nhryloywder a hygrededd system cyllid pleidiau ac etholiadau'r DU. Mae hyn yn rhan bwysig o gynnal hyder yn strwythurau a phrosesau democrataidd y DU. Rydym yn sicrhau tryloywder cyllid etholiadol drwy gyhoeddi gwybodaeth er mwyn i bobl allu gweld yn glir sut mae pleidiau ac unigolion yn cael eu cyllid a sut maent yn ei wario wrth ymladd ymgyrchoedd etholiadau a refferenda. Rydym yn cynnal hygrededd drwy ddarparu cyngor ac arweiniad i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio am yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu – gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a pha wybodaeth y mae'n rhaid iddynt eu hadrodd i ni – a thrwy weithredu pan na fydd y rheolau'n cael eu dilyn.

Rydym yn anelu at gynnal ein swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n cefnogi'r broses wleidyddol ac yn helpu pleidiau gwleidyddol i ffynnu. Mae rhan fwyaf y sefydliadau yr ydym yn eu rheoleiddio yn dilyn y rheolau ac rydym am helpu pob un o'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol. Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae mewn pleidiau a sefydliadau ymgyrchu, ac rydym yn ymroddedig i reoleiddio mewn ffordd effeithiol ond cymesur, gan ddefnyddio cyngor ac arweiniad yn hytrach na chamau gorfodi fel ein dewis ddull o wella cydymffurfio. Mae'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PPE) wedi paratoi'r ffordd ar gyfer pwerau newydd a sancsiynau sifil fydd yn ein helpu i wneud hyn yn fwy effeithiol dros y blynyddoedd nesaf.

Sicrhau tryloywder

Mae mwy o dryloywder bellach am gyllid pleidiau gwleidyddol y DU nac erioed. Er nad oedd y pleidiau yn gallu cytuno ar y newidiadau systemaidd a ystyriwyd gan yr adolygiad a gadeiriwyd gan Syr Hayden Phillips yn 2007, *Strengthening Democracy: Fair and Sustainable Funding of Political Parties*, mae'r trafod yn San Steffan a thu hwnt am yr angen am newid pellach wedi parhau'n fywiog.

Mae Deddf PPE wedi cyflwyno mireinio pellach i'r rheolau, er mae rhai o'r rhain yn gymhleth a bydd angen i ni eu hegluro'n ofalus i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio. Fodd bynnag, cynyddodd y Ddeddf yr hawl i dderbyn rhoddion a throthwyon adrodd yn uwch o lawer na chwyddiant; bydd angen i ni fonitro'r effaith y mae hyn yn ei chael ar dryloywder.

Nid yw'r ddadl dros dreuliau ASau ar y cyfan yn uniongyrchol gysylltiedig â'r drefn cyllid pleidiau ac etholiadau yr ydym yn ei rheoleiddio, ond mae wedi ysgwyd hyder y cyhoedd ac amlygu'r angen am ymdrech barhaus i ailadeiladu ymddiriedaeth yn y ffordd y mae gwleidyddiaeth a gwleidyddion yn cael eu hariannu.

Ein blaenoriaethau

Rydym am sicrhau bod y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio yn deall y rheolau – yn cynnwys y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf PPE, a'r rheolau sy'n llywodraethu gwariant pleidiau ac ymgeiswyr ac adrodd am roddion mewn etholiadau cyffredinol y DU – a'u bod yn hyderus y byddwn yn rhoi cyngor ac arweiniad iddynt yn ôl yr angen.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau ac ymestyn ein gwaith cyngor ac arweiniad presennol, yn enwedig mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU, a chyhoeddi arweiniad amserol o ansawdd uchel ar ofynion rheoleiddio newydd
- darparu hyfforddiant a briffiadau i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio ar ddatblygiadau newydd ym mhob rhan o'r DU, gan weithio gyda'r pleidiau mwy i integreiddio ein gwasanaethau gyda'u digwyddiadau a'u hyfforddiant
- dechrau cyhoeddi arweiniad diwygiedig ar faterion rheoleiddio blaenoriaeth uchel, wedi'i hysbysu gan ganfyddiadau adolygiad gynhaliwyd gennym yn ystod 2009–10
- paratoi i roi cyngor rhagweithiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio yr ydym yn eu nodi fel rhai risg uwch drwy ein hymagwedd newydd i asesu risg, ac i'r rheiny yr ydym yn asesu bod angen cyngor penodol arnynt o ganlyniad i weithgarwch gorfodi

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- cwblhau cyhoeddi arweiniad diwygiedig ym mhob maes rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau, i sicrhau ei fod yn glir ac yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr cyn belled ag y bo'n bosib, yn unol â chanfyddiadau ein hadoly giad arweiniad
- parhau i ddarparu hyfforddiant, briffiadau a chyngor i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio, yn cwmpasu gofynion parhaus y drefn reoleiddio a digwyddiadau penodol fel etholiadau a refferenda

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran yr ymatebion i geisiadau[2]		
(a) am gyngor cyffredinol a gyflwynwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	(a) 95%	(a) 95%
(b) am farn ymgynghorol ffurfiol a chyngor arall ar faterion newydd a chymhleth a gyflwynwyd o fewn 30 diwrnod gwaith	(b) 90%	(b) 90%

[2] Mae 'cyngor cyffredinol' yn ymwneud â materion a gwmpesir yn arweiniad y Comisiwn a gyhoeddwyd neu lle mae fel arall gynsail ar gael yn rhwydd; mae unrhyw gais y tu allan i hyn yn cael ei drin fel mater 'newydd a chymhleth'.

Rydym am alluogi ymwneud gwleidyddol drwy wasanaeth cofrestru pleidiau effeithiol, er mwyn i bawb sy'n dymuno cofrestru er mwyn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth allu gwneud hynny heb unrhyw feichiau neu oedi diangen.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r broses cofrestru pleidiau fel ffordd o egluro goblygiadau a chyfrifoldebau cyfreithiol cofrestru, a byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gipiwyd adeg cofrestru i hysbysu ein hasesu risg a sut rydym yn targedu ein hadnoddau rheoleiddio.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau i ddarparu gwasanaeth cywir ac effeithlon i'r rheiny sy'n dymuno cofrestru plaid wleidyddol newydd, gan sicrhau bod ymgeiswyr yn cael arweiniad clir, defnyddiol a realistig ar fanteision a chyfrifoldebau cofrestru
- asesu effeithiolrwydd y broses gofrestru bresennol wrth gynghori pleidiau newydd posib ynghylch cyfrifoldebau cofrestru a sut i gydymffurfio â hwy
- gwneud defnydd llawn o'n gwasanaeth arlein newydd ('Cyllid Pleidiau ac Etholiadau Arlein') i gefnogi'r broses cofrestru pleidiau
- cyflwyno proses ymgeisio symlach i sefydliadau ymgyrchu penodedig mewn refferendwm

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- adolygu'r atodlen ffioedd ar gyfer cofrestru pleidiau ac argymell unrhyw newidiadau

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran y pleidiau gwleidyddol newydd a gofrestrwyd o fewn 20 diwrnod gwaith	95%	95%

Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus fod ganddynt wybodaeth o ansawdd da am roddion, gwariant ymgyrchu a chyllid pleidiau, yn enwedig mewn perthynas â'r prif etholiadau ar draws y DU.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyhoeddi gwybodaeth am incwm a gwariant gwleidyddol; defnydd priodol o'n pwerau gwneud rheoliadau; archwilio wedi'i dargedu; a dadansoddi, adrodd a chyfathrebu o ansawdd da, wedi'i gefnogi gan gadw golwg ar ddigwyddiadau sy'n dod a monitro ymgyrchoedd.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau i wirio a chyhoeddi ffurflenni statudol yn brydlon, yn cynnwys adroddiadau rhoddion wythnosol yn ystod etholiadau cyffredinol y DU
- sicrhau bod ein gwasanaeth arlein newydd yn cefnogi pleidiau gwleidyddol a ninnau fel ein gilydd yn llawn i gyflawni cyfrifoldebau yn y broses ffurflenni statudol, ac yn helpu pleidleiswyr i gael gwybodaeth am gyllid pleidiau ac etholiadau mor syml â phosib
- cynllunio a chynnal cadw llygad ar ddigwyddiadau a strategaeth monitro ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU
- cyhoeddi adroddiad ar gyllid pleidiau a gwariant ymgyrchu ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU
- cynllunio a chynnal rhaglen o archwiliadau seiliedig ar risg o ddatganiadau cyfrifon blynyddol pleidiau
- gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i gytuno ar ymagwedd safonol i adrodd incwm yn eu datganiadau cyfrifon blynyddol
- adolygu a diwygio'r broses ar gyfer talu ac archwilio'r defnydd o'r Grantiau Datblygu Polisi, y mae'n ofynnol i ni eu gwneud i bleidiau gwleidyddol cymwys, gyda golwg ar leihau cost a beichiau gweinyddol i ninnau ac i'r pleidiau fel ein gilydd

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- monitro ac adrodd ar agweddau ariannol etholiadau a reoleiddiwyd, yn cynnwys etholiadau 2011 i seneddau datganoledig ac etholiadau Senedd Ewrop 2014, yn ogystal ag unrhyw refferenda lle mai ni yw'r rheoleiddiwr arian ymgyrchu[3]
- cyflwyno ymagwedd safonol i ddatganiadau cyfrifon blynyddol pleidiau sy'n effeithiol wrth ddarparu gwell tryloywder o gyllid pleidiau, yn effeithiol wrth leiafu'r baich o gwblhau a dadansoddi'r wybodaeth, ac sy'n lleihau cost cyffredinol cydymffurfio

[3] Gweler tudalen 42 am drosolwg o etholiadau a refferenda yn y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn.

3 (Parhad)

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran y ffurflenni a gyflwynwyd yn brydlon yr ydym yn eu cyhoeddi o fewn 20 diwrnod gwaith	100%	98%[4]
Nifer y pleidiau sy'n cyflwyno un neu fwy o ffurflenni statudol yn electronig	Newydd	20
Cyhoeddi adroddiadau ar agweddau ariannol etholiadau a reoleiddir o fewn 14 wythnos o'r terfyn amser olaf ar gyfer ffeilio ffurflenni gwariant ymgyrchu	Newydd	100%

[4] Bydd nifer y ffurflenni i'w prosesu yn sylweddol uwch mewn blwyddyn lle mae etholiad cyffredinol, sy'n egluro'r targed ychydig yn is yn 2010–11.

Rydym am gynnal dealltwriaeth glir o'r bylchau posib yn y system reoleiddio a sut i fynd i'r afael â hwy. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi gofynion aneffeithlon sy'n gosod beichiau anorfod ar y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio, yn ogystal â meysydd lle mae'r rheoliadau presennol yn annigonol.

Byddwn yn ystyried digwyddiadau allweddol fel y cyfnod yn arwain at, a'r gwersi a ddysgwyd gan, y prif etholiadau ar draws y DU. Byddwn hefyd yn tynnu ar yr ystod lawn o'n gwaith rheoleiddio parhaus, yn cynnwys cadw llygad ar ddigwyddiadau a dadansoddi materion newydd a godir gan ein gwaith achos ymgynghori a gorfodi. Byddwn yn asesu effaith newidiadau, yn nodi materion sy'n ymddangos ac yn datblygu datrysiadau, naill ai drwy ddiwygio ein pwerau presennol neu drwy argymhellion ar gyfer newidiadau pellach i'r gyfraith.

.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- cadarnhau a chyhoeddi ein polisi gorfodi newydd, yn nodi sut byddwn yn defnyddio pwerau a sancsiynau newydd a ddarperir gan Ddeddf PPE
- gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio i gefnogi cyflwyno unrhyw ofynion rheoleiddio newydd sy'n codi o Ddeddf PPE nad ydynt wedi'u cychwyn
- diweddaru ein cynlluniau i sicrhau lle mai ni yw rheoleiddiwr cyllid etholiadau mewn refferendwm, bod ein rheoleiddio yn effeithiol
- cwblhau adolygiadau (a ddechreuwyd yn 2009–10) o bwerau gwneud rheoliadau a beichiau gweinyddol
- parhau i gydgysylltu â Swyddfa Gogledd Iwerddon ac eraill i sicrhau gweithredu effeithiol cynllun rhoddion a benthyciadau Gogledd Iwerddon
- gweithio gyda rheoleiddwyr a chyrff gorfodi eraill i gadarnhau a chynnal protocolau ar gydweithredu rheoleiddiol
- parhau i adolygu'r system reoleiddio

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- adolygu effaith bosib newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol, ac o unrhyw ddarpariaethau mewn deddfwriaeth bresennol nad ydynt wedi'u cychwyn
- adolygu effaith newidiadau a wnaed i'r drefn reoleiddio yn 2009–10 (yn cynnwys trothwyon rhoddion uwch a newidiadau i drefniadau adrodd i ASau), ac unrhyw faterion sy'n codi o'n gwaith achos gorfodi parhaus

4 (Parhad)

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Cytuno a/neu adolygu protocolau gyda rheoleiddwyr a chyrff gorfodi eraill unwaith bob dwy flynedd	Newydd	5 protocol wedi'u cytuno/adolygu
Ar gyfer unrhyw refferendwm lle mai ni yw'r rheoleiddiwr cyllid ymgyrchu, cyhoeddi arweiniad ar agweddau rheoleiddio un mis o leiaf cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau	Newydd	100% o arweiniad o'r fath wedi'i gyhoeddi i'r amserlen hon

Sicrhau hygrededd

Cafwyd llawer iawn o ffocws ar ein rôl fel rheoleiddiwr cyllid pleidiau ac etholiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol er mwyn dod yn fwy effeithiol. Mae camau gorfodi hyd yma wedi gwella cydymffurfio a chodi ymwybyddiaeth o faterion cydymffurfio. Mae Deddf PPE wedi gosod y sylfeini ar gyfer y pwerau a'r sancsiynau sydd eu hangen arnom er mwyn rheoleiddio'n effeithiol.

Wrth i ni ddechrau gwneud defnydd o'r pwerau a'r sancsiynau newydd hyn, bydd angen i ni weithio'n galed i reoli ein perthnasau nid yn unig gyda'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio, ond hefyd gyda'r rheiny sy'n dymuno cyfrannu at bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr fel rhoddion a chefnogwyr.

Rydym am i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio gyflwyno'u holl ffurflenni statudol yn brydlon, ac i'r ffurflenni hynny fod yn gywir, er mwyn i bleidleiswyr gael gwybodaeth amserol a dibynadwy.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- nodi'r rheiny sy'n ffeilio ffurflenni statudol y byddent yn elwa o gyngor a chefnogaeth i wella eu gallu i gydymffurfio â'r rheolau
- cyhoeddi a cheisio cosbau sifil fel y bo'n briodol lle y bu methiannau i gydymffurfio â gofynion adrodd
- monitro ac adolygu ffurflenni statudol o roddion a gwariant ymgyrchu cysylltiedig ag etholiadau cyffredinol y DU
- paratoi i gwrdd â'n cyfrifoldebau statudol ar gyfer unrhyw refferenda lle mai ni yw'r rheoleiddiwr cyllid ymgyrchu

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- monitro ac adolygu ffurflenni statudol o roddion a gwariant ymgyrchu ar gyfer y prif etholiadau ar draws y DU
- addasu ein gweithdrefnau yn unol ag unrhyw newidiadau yn y drefn adrodd ar gyfer Gogledd Iwerddon, a sicrhau bod y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio yn deall y rheolau
- monitro ac adolygu'n gyson ein defnydd o sancsiynau, yn cynnwys eu heffaith ar ein cyfraddau cydymffurfio
- gweld mwy o gosbau ariannol yn cael eu talu'n brydlon, gyda lleihad cyfatebol yn ein hangen i geisio eu casglu

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran y ffurflenni statudol gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio a gyflwynwyd yn brydlon	–	90%
Canran y rhoddion a adroddwyd yn y chwarter cywir (a) i bencadlysoedd pleidiau a (b) i unedau cyfrifo pleidiau	 (a) – (b) –	 (a)100% (b) 95%
Canran yr hysbysiadau cydymffurfio y cydymffurfiwyd â hwy heb angen am weithredu pellach[5]	Newydd	60%
Canran y cosbau sifil a dalwyd o fewn y terfyn amser cytunedig[5]	Newydd	50%

[5] Mae'r dangosyddion hyn mewn perthynas â swyddogaethau sy'n newydd i'r Comisiwn. Mae'r lefelau gweithgarwch yn y maes hwn yn ansicr, rydym wedi gosod ein targedau i adlewyrchu hyn.

6

Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus fod rhoddion nas caniateir i bleidiau ac unigolion yn cael eu nodi'n effeithiol a'u diddymu o'r system yn gyflym.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau i gynnal gwiriadau effeithiol i nodi rhoddion nas caniateir, a chynnal archwiliadau amserol a chymesur lle mae caniatâd yn cael ei gwestiynu
- parhau i gymryd camau amserol i ddiddymu arian nas caniateir o'r broses wleidyddol drwy fforfediad neu ddulliau eraill sydd ar gael
- sicrhau bod cyngor yn cael ei roi lle y bo'n briodol i alluogi cydymffurfio yn y dyfodol

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- adolygu ein hymagwedd fwy seiliedig ar risg i faterion cydymffurfio allweddol
- cynnal nifer bach o archwiliadau ar hap o sefydliadau risg isel

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran y rhoddion nas caniateir a adroddwyd a dderbyniwyd gan y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio a ddychwelwyd o fewn terfynau amser statudol	Newydd	85%
Canran y rhoddion nas caniateir yr ydym yn eu nodi y dylid eu fforffedu a ddiddymwyd o'r system	Newydd	100%
Canran gwiriadau rhoddion nas caniateir y Comisiwn Etholiadol a gynhaliwyd o fewn 28 diwrnod[6]	Newydd	95%

[6] Mae'r amserlen (28 diwrnod) yn dechrau o'r pwynt yr ydym yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol.

7

Rydym am i bleidleiswyr fod yn hyderus y bydd y rheiny sy'n methu â chydymffurfio â'r gyfraith yn wynebu archwiliadau teg, trylwyr a chymesur sy'n arwain at ganlyniadau priodol. Rydym am gynnal ein gweithgarwch gorfodi yn drylwyr ond heb oedi, fel nad yw unrhyw un dan sylw yn aros yn hwy nag y mae angen am benderfyniadau.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau i asesu'r holl waith achos posib yn erbyn meini prawf cytunedig o fewn terfynau amser penodedig
- parhau i gynnal adolygiadau ac archwiliadau cymesur sydd o fewn terfynau amser, sy'n gymesur ac yn unol â'n gweithdrefnau a'n harfer gorau cyffredinol
- cynnal archwiliadau i asesu'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion
- cymhwyso sancsiynau lle y bo'n briodol, yn unol â'r meini prawf cytunedig i sicrhau bod sancsiynau yn gyson â'u bod yn diddymu unrhyw fudd a geir drwy ddiffyg cydymffurfio ac yn gweithredu fel ataliad cyffredinol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio
- cyhoeddi gwybodaeth gyson a phriodol am ein gweithgarwch gorfodi a sancsiynu
- meincnodi ein gwaith rheoleiddio yn erbyn rheoleiddwyr eraill i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni arfer gorau

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- adolygu ein gweithdrefnau yn rheolaidd i nodi cyfleoedd effeithlonrwydd a'u meincnodi yn erbyn arfer gorau
- sicrhau ein bod yn deall effaith ein gwaith gorfodi ar ein rhanddeiliaid, yn cynnwys y rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio
- nodi meysydd lle mae ein profiad gorfodi yn awgrymu y dylid newid y fframwaith cyfreithiol presennol

(Parhad)

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran yr asesiadau cychwynnol[7] a gwblhawyd o fewn 5 diwrnod gwaith o'u nodi	90%	95%
Canran yr achosion sy'n cael eu hadolygu[8] a ddatryswyd o fewn 90 diwrnod o'u nodi	90%	95%
Canran yr archwiliadau[9] a ddatryswyd o fewn 6 mis o'u nodi	90%	90%
Canran yr archwiliadau[8] a ddatryswyd o fewn 12 mis o'u nodi	Newydd	100%
Canran y crynodebau o adolygiadau achos ac archwiliadau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwnrod gwaith o'r penderfyniad	Newydd	95%
Adolygiad allanol o weithdrefnau rheoli ansawdd yn 2011–12	Newydd	Sicrwydd boddhaol o leiaf neu uwch

[7] **Asesiad cychwynnol** – ar y cam hwn, rydym yn asesu materion a godwyd gyda ni neu'n ystyried gwybodaeth yr ydym wedi dod yn ymwybodol ohoni ein hunain, er enghraifft, drwy ffurflenni statudol neu adroddiadau yn y wasg. Rydym yn sefydlu os oes torri posib o ran deddfwriaeth ac, os felly, a yw hyn yn achos dros gyfeirio ar gyfer **adolygiad achos** neu **archwiliad**.

[8] **Achos sy'n cael ei adolygu** – lle mae'r asesiad cychwynnol yn awgrymu y gallai fod achos o dorri deddfwriaeth, ceisiwn bennu a yw hyn yn wir. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd i ni neu yr ydym yn dod yn ymwybodol ohoni o ganlyniad i ymholiadau. Ni fyddwn ar y cam hwn yn defnyddio ein pwerau archwilio ffurfiol ac ni fyddwn yn cynnal cyfweliadau.

[9] **Archwiliad** – rydym yn cynnal archwiliadau didudedd, teg a gwrthrychol. Byddwn yn dechrau archwiliad lle mae angen i ni ddefnyddio ein pwerau statudol i gaffael gwybodaeth a/neu lle mae angen i ni gyfweld ag unigolion er mwyn cael gwybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn pennu a yw torri deddfwriaeth wedi digwydd.

Dangosyddion cynnydd yn cefnogi Amcan 1

Mae'r dangosyddion cynnydd isod yn rhoi gwybodaeth i ni am y cysyniad ehangach o lefel y tryloywder a hygrededd mewn cyllid pleidiau ac etholiadau.

Dangosyddion cynnydd	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran cyhoedd y DU sy'n hyderus y byddai'r awdurdodau yn cymryd camau priodol pe byddai	–	45%
Canran cyhoedd y DU sy'n cytuno bod 'Mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd nawr nac yn y gorffennol diweddar am sut mae pleidiau gwleidyddol yn cael eu hariannu ac yn gwario eu harian'	–	70%

Amcan 2

Etholiadau, refferenda a chofrestru etholiadol a gynhelir yn dda

Rydym am i bobl ar draws y DU fod yn hyderus bod:

- cofrestru i bleidleisio a chymryd rhan mewn etholiadau yn syml, yn hygyrch ac yn ddiogel
- byddant yn derbyn gwasanaeth o safon uchel gyson, lle bynnag maent yn byw a pha etholiadau neu refferenda bynnag sy'n cael eu cynnal

Cyflwyniad

Rydym am i brosesau etholiadol yn y DU gwrdd ag anghenion pobl, gyda lefelau gwasanaeth sy'n cwrdd â'u disgwyliadau. Yn anad dim, rydym am i bobl gael hyder yng nghanlyniadau etholiadau, ac rydym am wneud yn siwr nad yw hyder yn cael ei niweidio gan weithdrefnau anodd eu dilyn, gwallau gweinyddol, twyll honedig neu wirioneddol, neu heriau cyfreithiol.

Bydd etholiadau yng ngwahanol rannau'r DU ym mhob blwyddyn o'n cynllun pum mlynedd, ac mae'r potensial ar gyfer digwyddiadau arwyddocaol eraill, fel refferenda, ar unrhyw adeg.[10] Mae etholiadau gyda gwahanol systemau pleidleisio, gwahanol etholfreintiau a gwahanol strwythurau rheoli yn gofyn am ymagwedd hyblyg gennym ni ac eraill er mwyn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau pleidleiswyr.

Rydym yn gweithio gydag eraill i wneud i hyn ddigwydd. Ar draws y DU, mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) yn gyfrifol am lunio a chynnal cofrestri etholiadol ac mae Swyddogion Canlyniadau (ROs) yn gyfrifol am gynnal etholiadau. Mae Seneddau'r DU a'r Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am y fframwaith cyfreithiol ac ariannu y mae EROs ac ROs yn cyflawni'r dyletswyddau hynny oddi mewn iddo.

Rydym felly yn gweithio gyda llywodraethau a deddfwyr i wella'r fframwaith cyfreithiol ac ariannu lle y mae angen, a gydag EROs ac ROs i wella cyflwyno gwasanaeth i etholwyr ac ymgeiswyr. Yn hyn i gyd rydym yn anelu at roi pleidleiswyr wrth wraidd y broses etholiadol.

Cofrestru etholiadol a phleidleisio hygyrch a diogel

Yn y 10 mlynedd ers sefydlu'r Comisiwn Etholiadol cafwyd newidiadau arwyddocaol a pharhaus yn y ffordd y mae etholiadau a chofrestru etholiadol yn y DU yn cael eu cynnal.

Mae pleidleisio drwy'r post ar gais a chofrestru etholiadol treigl wedi'u cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Chymru, ac mae cofrestru etholiadol unigol parhaus wedi'i gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon. Cafwyd cynlluniau peilot sy'n profi ffyrdd newydd o bleidleisio, a refferendwm rhanbarthol yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr.

Mae'n annhebygol y bydd cyflymder y newid yn arafu yn ystod y pum mlynedd nesaf, gyda chyflwyno cofrestru etholiadol unigol yn Lloegr, yr Alban a Chymru, y posibilrwydd o ffocws o'r newydd ar foderneiddio etholiadau, a diddordeb newydd mewn refferenda.

Mae cyfraddau cofrestru etholiadol ar draws y DU yn rhy isel o hyd: dangosodd ein hymchwil y gallai fod hyd at naw y cant o ddinasyddion cymwys ar goll o gofrestri yng Nghymru a Lloegr ar adeg y cyfrifiad diwethaf yn 2001, gyda grwpiau fel pobl ifanc a'r rheiny o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn llawer llai tebygol o fod wedi'u cofrestru. Yng

[10] Gweler tudalen 42 am drosolwg o'r etholiadau a'r refferenda yn y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn.

Ngogledd Iwerddon, mae'r trosglwyddo i gofrestru etholiadol unigol wedi cynyddu hyder yn y broses etholiadol, er bod yr her o sicrhau bod y gofrestr yn cynnwys pawb y mae ganddynt yr hawl i bleidleisio yn aros.

Mae nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio wedi cynyddu ers 2001 – ym mis Rhagfyr 2009 roedd mwy na 46 miliwn o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio ar draws y DU – ond mae angen i ni wneud yn siwr bod pawb sy'n gymwys ac sy'n dymuno cael eu cofrestru wedi'u cynnwys.

Mae'r system gofrestru yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn dal i fod yn seiliedig ar y cyfan ar un person ar yr aelwyd yn cwblhau ffurflen gais ar ran pawb arall, sy'n gysyniad hen ffasiwn sy'n aros o'r ffordd yr oedd etholiadau yn cael eu rheoli yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Darparodd y Ddeddf PPE ar gyfer cyflwyno cofrestru etholiadol unigol ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru ac rydym yn croesawu'r newid arwyddocaol hwn.

Mae datblygu a chyflwyno proses sy'n ddiogel ac mor hawdd â phosib i bawb yn gofyn am gynllunio cynhwysfawr, adnoddau a chefnogaeth i EROs. Mae sicrhau bod hyn yn ei le yn flaenoriaeth allweddol i ni drwy gydol y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn.

Cyhyd â'u bod ar y gofrestr, cynigir dewis i bleidleiswyr yn y DU o ddulliau i fwrw eu pleidlais, gyda phleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy yn ddulliau posib yn hytrach na bwrw pleidlais yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio leol. Ond er y gallai fod pobl yn hapus â'r ystod o ddulliau pleidleisio sydd ar gael iddynt, mae pryderon ganddynt o hyd am dwyll etholiadol a chamymddygiad arall cysylltiedig ag etholiadau.

Tra ei fod yn iawn parhau i archwilio opsiynau i wneud cofrestru etholiadol a phleidleisio yn fwy hygyrch, rhaid i unrhyw newidiadau gynnwys dulliau diogelu cadarn yn erbyn gwendidau a allai niweidio hyder yn hygrededd y broses etholiadol.

Ein blaenoriaethau

Rydym am weld system o gofrestru etholiadol unigol yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus yn Lloegr, yr Alban a Chymru i sicrhau bod pobl yn cael eu gwasanaethu gan broses gofrestru effeithiol, diogel a chyfleus.[11]

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- gweithio gyda Llywodraeth y DU, EROs ac eraill i sicrhau bod cynllun clir a chadarn yn cael ei ddatblygu ar gyfer cyflwyno cofrestru etholiadol unigol, yn cynnwys ymchwil gydag etholwyr a chraffu deddfwriaeth ddrafft i sicrhau bod y broses o gasglu dynodyddion personol mor llwyddiannus â phosib
- darparu arweiniad a chefnogaeth i helpu EROs gasglu dynodyddion personol mewn ffordd sy'n syml ac yn hygyrch i etholwyr

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- datblygu a chydlynu rhaglen o weithgarwch ymwybyddiaeth gyhoeddus i sicrhau bod etholwyr yn deall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud o dan y system gofrestru newydd
- adrodd yn flynyddol ar gyflwyno cofrestru etholiadol unigol yn Lloegr, yr Alban a Chymru
- gwneud argymhellion yn 2014 am a ddylai darparu dynodyddion personol fod yn orfodol i bawb sydd am gael eu cynnwys yn y gofrestr etholiadol yn Lloegr, yr Alban a Chymru

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Cyhoeddi manylion ein hymagwedd at fonitro cyflwyno cofrestru etholiadol unigol yn cynnwys manylion ein rhaglen ymchwil, gan ystyried barn randdeiliaid	Newydd	Cyhoeddi'r ymagwedd erbyn Rhagfyr 2010
Craffu a chyhoeddi ein barn ar reoliadau drafft ar gyfer cyflwyno cofrestru etholiadol unigol, sicrhau bod ein barn ar gael i'r Senedd ac yn gyhoeddus i eraill 10 diwrnod o leiaf cyn ystyried unrhyw reoliadau drafft	Newydd	100% o friffiadau wedi'u cyhoeddi i'r amserlen hon[12]
Cyhoeddi arweiniad i EROs ar weithdrefnau newydd ar gyfer casglu dynodyddion personol, 5 mis o leiaf cyn dechrau'r gweithdrefnau newydd	Newydd	100% o arweiniad i'w gyhoeddi i'r amserlen hon[12]

[11] Cyflwynwyd cofrestru etholiadol unigol yng Ngogledd Iwerddon yn 2002.
[12] Yn amodol ar amserlenni deddfwriaethol.

Rydym am sicrhau nad oes unrhyw rwystrau anorfod i bobl gofrestru i bleidleisio, a sicrhau bod polisi ac arfer cofrestru etholiadol wedi'i gefnogi gan dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- parhau â'n rhaglen ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth am gofrestri etholiadol lleol a gwerthuso effeithiolrwydd arferion presennol i wella cofrestru etholiadol yn Lloegr, yr Alban a Chymru.
- parhau i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar lefelau ariannu ar gyfer gwasanaethau cofrestru etholiadol yn Lloegr, yr Alban a Chymru, a datblygu cyfres o feincnodau a dangosyddion perfformiad allweddol i awdurdodau lleol eu defnyddio i gymharu costau eu gwaith cofrestru etholiadol â rheiny awdurdodau lleol eraill

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- defnyddio data cyfrifiad 2011 i gynhyrchu amcangyfrifon cenedlaethol o lefelau cofrestru a nodi'r grwpiau hynny y gallent fod leiaf tebygol o fod wedi'u cofrestru
- mireinio ein rhaglen ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth am gofrestri etholiadol lleol
- gwerthuso ac adrodd ar werth defnyddio ffynonellau data eraill i helpu gwella cyflawnrwydd a chywirdeb cofrestri etholiadol, fel rhan o raglen o gynlluniau peilot y disgwylir eu cyflwyno gan EROs yn Lloegr, yr Alban a Chymru o 2011 – yn cynnwys gwaith i brofi methodolegau a ddefnyddiwyd i brofi'r lefel o dangofrestru a'r rhesymau dros anghywirdeb ac anghyflawnrwydd cofrestri etholiadol

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran yr awdurdodau lleol yn dychwelyd ein harolwg ar lefelau ariannu gwasanaethau cofrestru etholiadol o fewn y terfyn amser a nodwyd	Newydd	90%
Datblygu cyfres o feincnodau a dangosyddion perfformiad i awdurdodau lleol eu defnyddio i gymharu cost a pherfformiad eu gwasanaethau cofrestru etholiadol	Newydd	Meincnodau a dangosyddion perfformiad yn eu lle erbyn Rhagfyr 2010

Rydym am wneud yn siwr fod pobl yn gwybod sut i gofrestru a'u hannog i wneud hynny, a sicrhau bod pobl yn gwybod sut i fwrw eu pleidlais, fel bod unrhyw un sydd â'r hawl i gymryd rhan mewn etholiadau yn gallu gwneud hynny.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- cynnal ymgyrch cofrestru pleidleiswyr genedlaethol cyn unrhyw etholiadau cyffredinol y DU ac etholiadau lleol Lloegr a drefnwyd ar gyfer Mai 2010
- cynnal ymgyrchoedd wedi'u hanelu'n benodol at grwpiau fel y rhai sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar, myfyrwyr, pleidleiswyr dramor a phobl yn y lluoedd arfog
- darparu gwybodaeth gyhoeddus cyn etholiadau i alluogi pobl i fwrw eu pleidlais, yn cynnwys gwybodaeth am y diwrnod pleidleisio, oriau agor gorsafoedd pleidleisio a gwahanol ddulliau a systemau pleidleisio
- cynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus ar gyfer unrhyw refferendwm lle mai ni sy'n gyfrifol am hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- parhau i gynnal ymgyrchoedd wedi'u llunio i helpu pobl i gofrestru i bleidleisio a deall sut i wneud yn siwr bod eu pleidlais yn cyfrif
- gwerthuso ein strategaeth ar gyfer cyrraedd grwpiau penodol sydd wedi'u tangynrychioli

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Nifer y ffurflenni cofrestru a archebwyd o ganlyniad i ymgyrchoedd gwybodaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn (yn cynnwys ymgyrchoedd cyn etholiadau)	–	226,550, yn cynnwys: Ymgyrch Etholiad Cyffredinol – 150,000 Ymgyrch Myfyrwyr – 9,300 Ymgyrch y rhai sy'n symud Tŷ [13] – 67,250 o gofrestriadau newydd neu a ddiwygiwyd

[13] Mae'r ymgyrch i'r rhai sy'n symud tŷ yn digwydd tua diwedd pob blwyddyn ariannol ac adroddir y canlyniadau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

4

Rydym am wneud yn siwr bod pobl yn hyderus bod etholiadau a refferenda ar draws y DU wedi'u gweinyddu yn effeithiol ac yn ddiogel, drwy werthuso ac adrodd ar weinyddiaeth etholiadol a nodi meysydd lle mae angen gwelliannau i gyfraith ac arfer etholiadol.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- gwerthuso ac adrodd, yn cynnwys unrhyw argymhellion angenrheidiol, ar etholiadau cyffredinol y DU ac etholiadau i awdurdodau lleol Lloegr
- adeiladu ar y canfyddiadau o'n gwerthusiad o'r etholiadau yn 2010 i gyflwyno cynigion seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella'r fframwaith cyfreithiol a gweinyddol ar gyfer etholiadau
- gwella cynllun papurau pleidleisio a deunyddiau eraill i helpu pleidleiswyr gan ddefnyddio set newydd o ganllawiau ac argymhellion a gyhoeddwyd gennym yn 2009
- monitro cynigion gan y Llywodraeth i foderneiddio'r system etholiadol, a sicrhau eu bod yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu, a'u bod yn ystyried buddiannau pleidleiswyr yn llawn ar bob cam
- parhau i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar lefelau ariannu i wasanaethau etholiadol yn Lloegr, yr Alban a Chymru a gwneud argymhellion am unrhyw newidiadau sydd eu hangen
- anelu at gynnydd tuag at ddod ag etholiadau lleol yr Alban o dan y fframwaith deddfwriaeth ehangach lle y byddwn yn darparu cyngor ac arweiniad, ac adrodd ar sut mae'r etholiadau yn cael eu cynnal

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- gwerthuso ac adrodd ar etholiadau i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn 2011
- gwerthuso ac adrodd ar etholiadau Senedd Ewrop yn 2014
- gwerthuso is-etholiadau Seneddol y DU ac etholiadau lleol yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon,[14] gan adrodd ar unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau, pan fydd gennym y rôl hon, ein bod yn gwerthuso cynnal unrhyw refferenda ar draws y DU neu rannau o'r DU, i nodi gwelliannau yn y fframweithiau cyfreithiol a rheoli ar gyfer unrhyw refferenda yn y dyfodol

[14] Gellir gofyn i ni hefyd adrodd ar etholiadau llywodraeth leol yr Alban yn 2012 yn yr un modd ag y gwnaethom yn 2003 a 2007.

4 (Parhad)

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Llwyddiant wrth hysbysu a dylanwadu ar y ddadl ar bolisi a'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cofrestru etholiadol ac etholiadau	Newydd	Byddwn yn adrodd tystiolaeth am ein llwyddiannau allweddol yn ein hadroddiad blynyddol, yn cynnwys cydnabyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer ein hargymhellion, a newid deddfwriaethol lle bo angen, a'r effaith ar ddeilliannau i bleidleiswyr.
Canran yr adroddiadau ar weinyddu etholiadau a gyhoeddwyd o fewn 18 wythnos o'r diwrnod pleidleisio	100%	100%

Hyder yn y ffordd y mae ein cofrestru etholiadol ac etholiadau yn cael eu rheoli

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi datblygu ein rôl wrth ddarparu cefnogaeth a chyngor i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) a Swyddogion Canlyniadau (ROs), a gwelir ein deunyddiau arweiniad bellach fel offerynnau hanfodol i'r rheiny sy'n cynnal etholiadau. Rydym wedi cefnogi swyddogion ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru wrth iddynt addasu i'r newidiadau mewn prosesau etholiadol ers 2000, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i heriau newydd – fel cyflwyno cofrestru etholiadol unigol yn Lloegr, yr Alban a Chymru – godi.

Ers 2007 rydym hefyd wedi adeiladu ar ein rôl i fonitro perfformiad, gan ddatblygu safonau cyffredin a fframwaith adrodd, a gyflwynwyd ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru. Rydym wedi adrodd ar berfformiad ar draws dau gylch o gofrestru etholiadol. Rydym wedi bod yn falch gweld ymgysylltiad â, a dealltwriaeth o'r fframwaith safonau perfformiad, ac yn anad dim gwelliannau mewn perfformiad gan EROs. Yn hwyrach yn ystod 2010 byddwn yn adrodd am yr eildro ar berfformiad ROs, yn cynnwys eu rôl wrth gyflwyno etholiad cyffredinol nesaf y DU.

Bydd cam nesaf y gwaith hwn yn ymwneud â chefnogi gwella perfformiad parhaus – yn adeiladu ar a gwreiddio arferion gwaith a rheoli o ansawdd uchel, er mwyn ysbrydoli hyder bod cofrestru etholiadol ac etholiadau yn cael eu rhedeg yn dda a'u rheoli'n gywir. Bydd hyn yn golygu trafodaethau anodd ond gonest am berfformiad lle nad yw etholwyr ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaeth o safon uchel, ond bydd hefyd yn cynnwys help a chefnogaeth i sicrhau y gellir gwneud gwelliannau.

Rydym hefyd wedi amlygu effaith newid ar y strwythurau sydd yn eu lle i reoli cyflwyno etholiadau, ac rydym wedi gwneud ein pryderon yn glir bod trefniadau presennol ar fin chwalu mewn rhai ardaloedd. Bydd yr her o sicrhau bod etholiadau yn derbyn yr adnoddau priodol, ac yn cael eu rheoli a'u gweinyddu yn briodol yn gofyn am ymgysylltiad ac ymwneud gan lywodraethau canolog a lleol a deddfwyr, yn ogystal â chefnogaeth broffesiynol. Mae cynnydd gwirioneddol wedi'i wneud, yn enwedig yn yr Alban gyda sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadau, i ddatblygu rhwydweithiau cefnogi a chydlynu effeithiol ymysg EROs a ROs, ac rydym am sicrhau bod trefniadau priodol i gyflwyno cynnydd yng Nghymru a Lloegr.

Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i wneud cynnydd sylweddol wrth ddeall a mynd i'r afael â thwyll etholiadol a chamymddygiad arall cysylltiedig ag etholiadau. Gyda chymdeithasau proffesiynol yr heddlu, rydym wedi gallu sefydlu rhwydwaith o gysylltiadau mewn heddluoedd a gydag erlynwyr ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru, sy'n golygu bod gwybodaeth am honiadau yn cael ei chofnodi a'i hadrodd yn gyson a bod swyddogion yr heddlu yn gwybod pa gamau i'w cymryd wrth ymateb. Ond mae angen i ni adeiladu ar y rhwydwaith hwn a symud i adrodd honiadau gydol y flwyddyn, i wneud yn siwr bod unrhyw weithgarwch a allai niweidio hyder yn y broses etholiadol yn cael ei gipio a'i gynnwys yn ein dadansoddiad.

Ein blaenoriaethau

5

Rydym am wneud yn siwr bod gan y rheiny sy'n cynnal cofrestru etholiadol ac etholiadau fynediad i arweiniad clir, cynhwysfawr a defnyddiol i sicrhau cysondeb a chefnogi gwelliannau mewn arfer a pherfformiad.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- dadansoddi data am berfformiad EROs a ROs i ddatblygu arweiniad a chefnogaeth wedi'u targedu'n well
- adolygu ein gwaith hygrededd etholiadol, a datblygu a chyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer gwaith yn y dyfodol
- parhau i weithio gydag EROs, ROs, pleidiau gwleidyddol, yr heddlu ac awdurdodau erlyn wrth ddyfeisio strategaethau ac offerynnau i hyrwyddo hygrededd yn y broses cofrestru etholiadol
- cefnogi EROs yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn eu dyletswydd i hyrwyddo cyfranogiad yn y broses cofrestru etholiadol yn lleol, drwy ddarparu arweiniad a deunyddiau ymwybyddiaeth y cyhoedd a sicrhau bod gan yr holl EROs strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd
- gosod targedau perfformiad mesuradwy ar gyfer arweiniad a chefnogaeth i EROs a ROs
- gweithio gydag EROs i fynd i'r afael â'r problemau lle mae cofrestru ar ei isaf

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- cynnal sefyllfa barhaus o barodrwydd i gefnogi etholiadau ar draws y DU, yn cynnwys etholiadau cyffredinol y DU, a darparu arweiniad i'r rheiny sy'n cynnal yr etholiadau hyn
- lle mae gennym y rôl hon, bod yn barod i oruchwylio cynnal unrhyw refferenda
- rhoi arweiniad i EROs ar y newidiadau i'r system gofrestru yn Lloegr, yr Alban a Chymru

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran yr ymholiadau gan EROs (dros y ffôn/ebost) a gydnabuwyd ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl eu derbyn ac yr ymatebwyd iddynt yn llawn o fewn 3 diwrnod gwaith	100%	100%
Canran yr ymholiadau gan ROs (dros y ffôn/ebost) a gydnabuwyd ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl eu derbyn ac yr ymatebwyd iddynt yn llawn o fewn 3 diwrnod gwaith	100%	100%
Cadarnhau adolygiadau a diwygiadau i lawlyfrau presennol erbyn dyddiad penodol bob blwyddyn, a'u gwneud ar gael, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr ERO a RO a phanelau'r pleidiau gwleidyddol:[15] (a) Llawlyfr RO ac arweiniad i Ymgeiswyr ac Asiantau erbyn diwedd Rhagfyr (b) Arweiniad cofrestru erbyn diwedd Mai	Newydd	100% o lawlyfrau wedi'u diwygio ac ar gael erbyn dyddiadau penodol

[15] Yn amodol ar amseru unrhyw newidiadau deddfwriaethol perthnasol.

6

Rydym am i bobl ar draws y DU fod yn hyderus fod cofrestru etholiadol ac etholiadau yn cael eu cynnal yn dda, gan ddarparu gwybodaeth wrthrychol am berfformiad, herio perfformiad gwael ac amlygu arfer da i wella rheoli etholiadau.

Gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd i gyflawni hyn:

Yn 2010–11 byddwn yn:

- dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad EROs a ROs yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn erbyn safonau perfformiad cyffredin
- dadansoddi data ariannol a ddarperir gan EROs a ROs yn Lloegr, yr Alban a Chymru i nodi unrhyw berthynas rhwng ariannu a pherfformiad
- gweithio gyda Phrif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon i ddatblygu a rhoi yn eu lle safonau perfformiad priodol ar gyfer cofrestru etholiadol ac etholiadau
- cyflwyno rhaglenni gwella gwasanaeth yn y meysydd hynny lle nad yw safonau perfformiad yn cael eu cwrdd, gan ddefnyddio tystiolaeth o arfer da gan EROs a ROs sy'n perfformio'n dda

Rhwng 2011 a 2015 rydym yn disgwyl:

- diweddaru ac adolygu ein fframwaith safonau perfformiad i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol heriol ac yn adlewyrchu gofynion newydd ar EROs sy'n gysylltiedig â chyflwyno cofrestru etholiadol unigol
- cyflwyno systemau sy'n ein galluogi i nodi meysydd lle mae risg o berfformiad gwael
- cefnogi datblygu a chyflwyno gwell strwythurau rheoli etholiadol yn Lloegr, yr Alban a Chymru; yn cynnwys y Bwrdd Rheoli Etholiadau yn yr Alban

Mesurau allbwn a deilliannau		
Mesurau	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Canran yr etholwyr ym Mhrydain Fawr y mae eu EROs yn cwrdd â'r holl safonau perfformiad neu'n rhagori arnynt yn y meysydd pwnc canlynol: (a) cyflawnrwydd a chywirdeb y gofrestr etholiadol (b) hygrededd (c) cyfranogiad (d) cynllunio	–	 (a) 90% (b) 90% (c) 90% (d) 90%
Canran yr etholwyr ym Mhrydain Fawr y mae eu ROs yn cwrdd â'r holl safonau perfformiad neu'n rhagori arnynt yn y meysydd pwnc canlynol: (a) cynllunio effeithiol (b) hygrededd (c) gweithgareddau cyfranogiad mewn perthynas â phroses etholiadol a gynhelir yn dda	Newydd	 (a) 90% (b) 90% (c) 90%

Dangosyddion cynnydd yn cefnogi Amcan 2

Mae'r dangosyddion cynnydd isod yn ein helpu i ddeall pa mor dda mae ein hetholiadau, refferenda a'r broses cofrestru etholiadol yn cael eu cynnal.

Dangosyddion cynnydd	Targed 2009–10	Targed 2010–11
Nifer yr etholwyr ar gofrestri etholiadol: (a) llywodraeth leol y DU a (b) Seneddol y DU[16]	–	Tuedd: i fyny o'i gymharu â 2009–10
Canran cyhoedd y DU sy'n dweud eu bod yn hyderus eu bod yn gwybod sut i bleidleisio	–	90%
Canran cyhoedd y DU sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r broses o gofrestru i bleidleisio	–	85%
Amcangyfrif o ganran y bobl sy'n gymwys i gofrestru nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio[17]	–	Ffigurau newydd (i'w casglu yn dilyn cyfrifiad 2011) i fod yn amcangyfrif is nag ar gyfer 2000–1
Canran cyhoedd y DU sy'n dweud eu bod yn hyderus eu bod yn gwybod sut i bleidleisio	–	95%
Canran cyhoedd y DU sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r broses o bleidleisio yn y DU	–	80%
Canran pleidleiswyr y DU sy'n credu bod etholiadau yn cael eu cynnal yn dda	–	95%
Canran cyhoedd y DU sy'n dweud nad yw twyll etholiadol yn broblem yn y DU	–	70%

[16] Yn 2009–10 nifer yr etholwyr ar gofrestr llywodraeth leol y DU oedd 46,455,890 ac ar gofrestr etholiadol Seneddol y DU oedd 45,420,808.

[17] Roedd amcangyfrif 2000–1 ar gyfer canran y bobl cymwys i gofrestru nad ydynt wedi'u cofrestru i bleidleisio rhwng 8 a 9%. Adroddir y ffigur hwn yn 'Understanding Electoral Registration' 2005 ac mae'n seiliedig ar wiriad o gofnodion cyfrifiad 2001 yn erbyn canfas 15 Hydref 2000. Cynhelir yr astudiaeth hon eto yn dilyn cyfrifiad 2011. Mae'r canfyddiadau presennol yn cwmpasu Cymru a Lloegr yn unig.

Sut rydym yn gweithio

Llywodraethu

Mae Bwrdd y Comisiwn Etholiadol ar hyn o bryd yn cynnwys chwe Chomisiynydd, y mae un ohonynt yn Gadeirydd. Bydd Bwrdd y Comisiwn yn cynyddu maes o law o chwe aelod i 10 gyda dyfodiad Comisiynwyr ychwanegol o ganlyniad i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf PPE). Penodir pob Comisiynydd gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Rydym yn atebol i Senedd y DU, ac yn benodol i Bwyllgor wedi'i gadeirio gan Lefarydd Tŷ 'r Cyffredin.

Mae annibyniaeth yn hanfodol i hyder y cyhoedd yn ein heffeithiolrwydd, yn enwedig mewn perthynas ag ymgymryd â'n swyddogaethau gweithredol. Rydym yn anelu at fodel o lywodraethu corfforaethol ardderchog, gan arfer gwerthoedd craidd o degwch, didueddrwydd a thryloywder.[18]

Mae Pwyllgor y Llefarydd yn archwilio ein cynllun pum mlynedd, a'r amcangyfrifon adnoddau ariannol blynyddol ac ar gyfer y dyfodol. Mae un o'i aelodau hefyd yn arwain ar ymateb i gwestiynau yn Nhŷ 'r Cyffredin ar faterion cysylltiedig â'n gwaith. Mae Pwyllgor y Llefarydd hefyd yn gyfrifol am recriwtio Comisiynwyr. Aelodau Pwyllgor y Llefarydd yw: y Gwir Anrh John Bercow AS (Llefarydd a Chadeirydd Pwyllgor y Llefarydd), y Gwir Anrh Syr Alan Beith AS (Cadeirydd, Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin), y Fonesig Sylvia Hermon AS, y Gwir Anrh Syr Gerald Kaufman AS, Humfrey Malins CBE AS, y Gwir Anrh Jack Straw AS (Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder), Gary Streeter AS, Syr Peter Viggers AS a'r Gwir Anrh Rosie Winterton AS (Gweinidog dros Lywodraeth Leol).[19]

Y Comisiynwyr Etholiadol yw: Jenny Watson (Cadeirydd), Max Caller CBE, Henrietta Campbell CB, Ian Kelsall OBE DL, John McCormick a Tony Hobman. Maent yn gyfrifol am y Comisiwn, ac yn gosod ein cyfeiriad strategol.

Mae'r Tîm Gweithredol yn cefnogi Comisiynwyr drwy ddarparu arweinyddiaeth dydd i ddydd i gyflwyno'n cynllun corfforaethol yn llwyddiannus. Aelodau Tîm Gweithredol y Comisiwn yw: Peter Wardle (Prif Weithredwr), Clare Ettinghausen (Dirprwy Brif Weithredwr), Carolyn Hughes (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol), Lisa Klein (Cyfarwyddwr Cyllid Pleidiau ac Etholiadau), Stephen Rooney (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) ac Andrew Scallan (Cyfarwyddwr Gweinyddiaeth Etholiadol).[20]

Mae swyddfeydd gennym yn Llundain, Caeredin, Caerdydd a Belfast, a swyddfeydd wedi'u lleoli yn Exeter, Llundain, Coventry a Chaerefrog sy'n cwmpasu rhanbarthau Lloegr.

Rydym yn cyhoeddi manylion llawn ein perfformiad bob blwyddyn drwy ein hadroddiad blynyddol (y gellir ei weld ar ein gwefan).

[18] Mae ein fframwaith llywodraethu corfforaethol ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/about-us/corporate-structure-and-management/governance.

[19] Gellir gweld yr aelodaeth bresennol yn www.parliament.uk/mpslordsandoffices/mps_and_lords/selcom.cfm#129.

[20] Bydd Clare Ettinghausen ar gyfnod mamolaeth am ran o 2010. Am y cyfnod hwnnw ymgymerir â rôl y Dirprwy Brif Weithredwr gan Carolyn Hughes.

Rheolaeth ariannol

Mae Pwyllgor y Llefarydd wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo'r Comisiwn ac mae'n gyfrifol am gywirdeb a rheolaeth cyllid a sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw a bod asedau yn cael eu diogelu.

Caiff ei gefnogi yn y cyfrifoldebau hyn gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a thrwy system o reolaeth gyllidebol ddatganoledig a dirprwyedig i Gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr.

Mae gweithdrefnau rheolaeth ariannol mewnol yn cynnwys adrodd ariannol mewnol rheolaidd, craffu a chymeradwyo'r holl gynigion buddsoddi cyfalaf ar lefel Tîm Gweithredol, adolygiadau chwarterol gyda chyfarwyddwyr a'u huwch reolwyr, cyfarfodydd fforwm adnoddau rheolaidd gydag uwch reolwyr a phenodi rheolwyr busnes ym mhob cyfarwyddiaeth weithredol.

Mae gwaith y Pwyllgor Archwilio, wedi'i gefnogi gan archwilwyr mewnol ac allanol, yn hanfodol i hygrededd a chywirdeb ariannol ac mae'n ffurfio rhan allweddol o'n rheolaeth ariannol.

Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys gwella prosesau rheolaeth ariannol yn barhaus a chefnogi rheolwyr gyda gwybodaeth ariannol ac arweiniad yng nghyd-destun rheolaeth gyllidebol ddatganoledig a dirprwyedig.

Cost cyflwyno'r cynllun hwn

Mae'r adran hon yn nodi costau disgwyliedig cyflwyno'r cynllun pum mlynedd hwn.

Wrth gyflawni ein hamcanion rydym yn ceisio cynnal ein cynlluniau gwario ar y lefel isaf sy'n gyson â chyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel ac felly rydym yn adolygu ac yn diweddaru ein cynlluniau a'n cyfleoedd gwario yn barhaus i wneud arbedion effeithlonrwydd cynhyrchedd ac arian parod. Drwy'r dulliau hyn rydym wedi cynnal lefel eithaf cyson o wariant dros y pum mlynedd diwethaf ers 2005–6 tra'n cyflwyno ein hamcanion ac ailffocysu gweithgareddau i alinio â'r amgylchedd newidiol. Dangosir y defnydd o adnoddau ers sefydlu'r Comisiwn yn 2000 yn Siart 1, yn cynnwys y defnydd o adnoddau a ragwelir ar gyfer 2009–10 a'r defnydd a gynllunnir dros y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun corfforaethol hwn hyd 2014–15.

Nodiadau i Siart 1:
(i) Roedd 2004–5 yn cynnwys gwariant mewn perthynas â'r refferendwm rhanbarthol a gynhaliwyd yn Ne Ddwyrain Lloegr.
(ii) O Ebrill 2002 hyd Mawrth 2010 mae'r gwariant ar adnoddau yn cynnwys hynny sy'n gysylltiedig â Phwyllgor Ffiniau Lloegr. Bydd gweithgarwch adolygu ffiniau yn cael ei gynnal gan sefydliad annibynnol newydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr, o Ebrill 2010.
(iii) Nid yw'r costau disgwyliedig ar gyfer 2011–12 hyd 2014–15 yn cynnwys costau sy'n codi o etholiadau cyffredinol y DU, na chostau sy'n codi o refferenda.

Siart 1: Gwariant ar adnoddau fesul blwyddyn: cyfrifon archwiliedig 2008–09; amcangyfrif rhagamcan 2009–10; cynlluniwyd 2010–11 hyd 2014–15



Ers Ebrill 2007, rydym wedi cytuno â Phwyllgor y Llefarydd na fyddwn yn ceisio unrhyw godiadau yn ein cyllideb flynyddol i dalu am chwyddiant – mewn geiriau eraill, byddwn yn talu costau cynyddol ein gwaith craidd drwy wneud arbedion effeithlonrwydd. Rydym yn bwriadu parhau â'r ymagwedd hon yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn, tra hefyd yn talu costau ychwanegol sy'n codi o gyfrifoldebau newydd, yn cynnwys ein rôl wrth osod safonau perfformiad i'r rheiny sy'n cynnal etholiadau a chofrestru etholiadol, ac ymdrin â'r fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf PPE.

Y flwyddyn ariannol 2010–11 yw blwyddyn olaf setliad 'arian gwastad' pedair blynedd a gytunwyd gan Bwyllgor y Llefarydd ym mis Ebrill 2007. Gan fod yr arian ar gyfer adnoddau a gytunwyd ar gyfer yr un swm ym mhob blwyddyn o'r cyfnod pedair blynedd hwn ond bod ein costau yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar pryd y mae etholiadau yn cael eu hamserlennu, rydym wedi defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn (EYF) i gyfateb gofynion adnoddau rhwng blynyddoedd.

Yn y pum mlynedd a gwmpesir gan y cynllun hwn rydym wedi gwneud amcangyfrifon ar wahân o'i gostau craidd, fydd yn aros yn wastad o safbwynt arian parod, a chostau y byddant yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn – mae'r rhain yn cynnwys costau cefnogi'r amrywiol etholiadau a gynlluniwyd bob blwyddyn, a chostau cefnogi'r symudiad a gynlluniwyd i system o gofrestru etholiadol unigol yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Mae yna, fodd bynnag, ddau gategori o ddigwyddiadau na allwn ragweld eu hamseru gydag unrhyw sicrwydd – etholiadau cyffredinol y DU, a refferenda. Bydd y costau i'r Comisiwn o gefnogi'r digwyddiadau hyn yn sylweddol, ond byddant yn amrywio llawer yn dibynnu ar yr union amseru. Trafodir y costau hyn ymhellach isod. Bwriedir parhau i ddefnyddio EYF i reoli a chyfateb gofynion adnoddau a chyfalaf yn effeithlon rhwng blynyddoedd.

Dangosir costau disgwyliedig cyflwyno'r cynllun hwn yn Siart 2 isod. Nid ydynt yn cynnwys costau cefnogi etholiad cyffredinol y DU, na chostau cefnogi a/neu weinyddu unrhyw refferendwm a elwir yn ystod cyfnod y cynllun.

Siart 2: Proffil adnoddau a chyfalaf a gynlluniwyd 2010–11 hyd 2014–15 ac eithrio costau etholiadau cyffredinol y DU a chostau refferenda

	2010–11 £m	2011–12 £m	2012–13 £m	2013–14 £m	2014–15 £m
Adnoddau					
Adnoddau craidd y Comisiwn Etholiadol	14.800	15.000	15.000	15.000	15.000
Costau ymwybyddiaeth y cyhoedd – amrywio gydag etholiadau	1.450	3.150	2.700	1.850	3.350
Cefnogaeth ar gyfer cofrestru etholiadol unigol	0.080	0.120	0.500	1.000	0.560
Cyfanswm costau'r Comisiwn Etholiadol	16.330	18.270	18.200	17.850	18.910
Grantiau datblygu polisi[22]	2.000	2.000	2.000	2.000	2.000
Cyfanswm yr adnoddau a gynlluniwyd	18.330	20.270	20.200	19.850	20.910
Cyfalaf					
Cyfanswm y cyfalaf a gynlluniwyd	1.000	0.910	0.760	0.590	0.570
Cyfanswm a gynlluniwyd bob blwyddyn	**19.330**	**21.180**	**20.960**	**20.440**	**21.480**

[21] Gweler tudalen 42 am drosolwg o etholiadau a refferenda yn y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn.

[22] Sefydlwyd grantiau datblygu polisi gan PPERA i bleidiau a gynrychiolwyd yn Nhŷ 'r Cyffredin gan ddau neu fwy o aelodau yn eistedd. Bwriad y grantiau yw cynorthwyo pleidiau i ddatblygu'r polisïau y byddant yn eu cyflwyno mewn maniffesto etholiad.

Costau cefnogi etholiadau cyffredinol y DU a refferenda

Nid yw'n bosib rhagweld amseru etholiadau cyffredinol y DU, nac (ar adeg cytuno'r cynllun hwn) amseru refferenda posib yn yr Alban, Cymru neu ar draws y DU. Am y rheswm hwn, nid yw ein rhagolygon cost ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y cynllun hwn yn cynnwys costau'r etholiadau a refferenda hyn; byddem yn ceisio cymeradwyaeth ar wahân gan y Senedd am yr adnoddau angenrheidiol wrth a phryd y daw'n glir bod eu hangen.

Ein tybiaeth o ran cynllunio yw y bydd etholiad cyffredinol nesaf y DU yn cael ei gynnal ym mis Mai 2010 ac wedi'i gyfuno â'r etholiadau lleol a amserlennwyd. Yn Amcangyfrif Prif Gyflenwad y Comisiwn 2010–11 mae swm ychwanegol o £2.500m o adnoddau wedi'i ychwanegu at y cyfanswm a ddangoswyd yn Siart 2 er mwyn ystyried y dybiaeth hon o ran cynllunio, a chaiff ei grynhoi yn Siart 3.

Yn dilyn pleidlais yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2010 mae'r Comisiwn wedi bod yn gweithio i gadarnhau cynlluniau ar gyfer gweinyddu refferendwm yng Nghymru. Dechreuodd y bleidlais yn ffurfiol y broses tuag at refferendwm ar bwerau deddfu pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yng ngoleuni'r bleidlais mae'n debygol y gofynnir i'r Comisiwn wneud sylwadau ar eiriad y cwestiwn ar refferendwm yn gynnar yn 2010–11. Mae hefyd yn bosib y bydd yn rhaid i'r Comisiwn weinyddu refferendwm yng Nghymru yn ystod 2010–11, efallai mor gynnar â'r hydref, er nad yw union ddyddiad refferendwm yn hysbys hyd yn hyn. Tybiaeth bresennol y Comisiwn o ran cynllunio yw y cynhelir y refferendwm ym mis Hydref 2010. Y gost amcangyfrifedig i'r Comisiwn yw £2.710m ac mae hyn hefyd wedi'i ychwanegu at Amcangyfrif Prif Gyflenwad y Comisiwn 2010–11 a'i gynnwys yn Siart 3.

Siart 3: crynodeb 2010–11 o gyfanswm yr adnoddau a chyfalaf a gynlluniwyd

	2010–11 £m
Adnoddau craidd ac amrywiol cynllunedig y Comisiwn Etholiadol	16.330
Grantiau datblygu polisi	2.000
Etholiad cyffredinol y DU	2.500
Refferendwm yng Nghymru	2.710
Cyfanswm yr adnoddau cynllunedig	**23.540**
Cyfalaf cynllunedig	1.000
Cyfanswm adnoddau a chyfalaf cynllunedig 2010–11	**24.540**

Dangosir y costau ychwanegol disgwyliedig fyddai'n codi mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol pellach y DU a refferenda posib dros gyfnod y cynllun corfforaethol hyd 2014–15 yn Siart 4.

Siart 4: Costau posib cefnogi etholiadau cyffredinol y DU a refferenda posib

	Ystod y gost ychwanegol	
	Isafswm £m	Mwyafswm £m
Etholiad cyffredinol y DU Ystod y costau yn dibynnu ar amseru'r etholiad, a yw'n digwydd ar ei ben ei hun neu math y digwyddiad etholiadol y cyfunir ag ef	0.0	3.5
Refferendwm Ystod y costau yn dibynnu ar lefel ymwneud y Comisiwn, a dynodiad ymgyrchoedd ie a na a adlewyrchwyd yn lefelau posib gweithgarwch ymgyrchu		
Refferendwm DU gyfan	7.8	16.0
Yr Alban	0.0	5.0
Cymru	2.6	3.2

Pobl

Mae ein llwyddiant a'r ffordd yr ydym yn rheoli a chyflwyno ein gwaith yn dibynnu ar y bobl sy'n gweithio i ni; drwyddynt hwy y gallwn gyflawni newid a chyflwyno canlyniadau.

Mae ein strategaeth adnoddau dynol yn cefnogi ein cynllun corfforaethol ac yn darparu fframwaith i alluogi ein pobl i gyflwyno gwell canlyniadau busnes a sicrhau bod ein staff yn barod i gwrdd â heriau'r dyfodol. Hyd yma cawsom gyfartaledd o 170 mewn swyddi yn ystod y flwyddyn ac roedd costau staff yn gyfrifol am oddeutu 37% o gyfanswm ein cyllideb.

Mae blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf yn cynnwys denu a chadw pobl drwy ddatblygu ein safle fel cyflogwr o ddewis. Byddwn hefyd yn parhau i greu a chynnal amgylchedd sy'n meithrin dysgu a datblygiad personol, gan sicrhau bod y gweithlu yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i gyflawni ein hamcanion. Byddwn yn cynnal ein cydnabyddiaeth Buddsoddwyr mewn Pobl.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol i gynnal cysylltiadau da â'n cyflogeion.

Byddwn yn ceisio'n weithgar cael gweithlu mwy amrywiol o ran oed ac yn annog diddordeb gan bob grŵp a rhan o fewn ein cymdeithas. Byddwn yn parhau i weithio gyda grwpiau fel y Fforymau Cyflogwyr ar oed, anabledd a chred, Age Positive ac Equality Britain. Byddwn hefyd yn cadw a hyrwyddo ein statws Defnyddiwr Symbol Anabledd.

Isadeiledd

Mae ein strategaeth cyfleusterau a llety yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn addas at y diben ac yn darparu amgylchedd gwaith diogel a chynhyrchiol. Yn fuan byddwn yn adolygu ein hanghenion llety yn y dyfodol ac yn defnyddio'r cyfle hwn i leihau costau a sicrhau effeithlonrwydd parhaus yn ein defnydd o lety.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein trefniadau parhad busnes ac adfer rhag trychineb yn parhau'n berthnasol ac yn ddiweddar a'u bod wedi'u profi a'u harchwilio, a'n bod yn parhau i gwrdd â'n hamcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Gwybodaeth yw un o'n hasedau pwysicaf ac rydym yn anelu at fwyafu ei ddefnydd drwy ddefnyddio technoleg a gwasanaethau sy'n gadarn, yn effeithlon, yn gost-effeithiol ac addas at y dyfodol. Rydym hefyd yn cymryd diogeledd ein gwybodaeth o ddifrif ac rydym wedi rhoi yn eu lle bolisïau, gweithdrefnau a thechnoleg i'w gwarchod.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn anelu at ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi gwell ffyrdd o weithio drwy ddarparu ffyrdd i'n staff gydweithio a rhannu a manteisio ar wybodaeth. Gwneir hyn drwy ddarparu systemau cyswllt a rheoli achosion newydd, gwell offerynnau ar gyfer rheoli dogfennau a gwell mewnrwyd. Byddwn hefyd yn adolygu a gwella'r systemau yr ydym yn eu defnyddio i gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid, yn enwedig ein gwefan; ac mae prosiect pwysig i ddisodli ein system cyllid pleidiau ac etholiadau ar waith.

Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall TGCh ei wneud i ddarparu gwerth am arian, a byddwn yn archwilio sut gallwn leihau cost drwy'r defnydd o dechnolegau newydd yn ogystal â defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol i gaffael ein systemau a'n gwasanaethau.

Etholiadau a refferenda yn ystod cyfnod y cynllun hwn

Dyddiad yr etholiad		System bleidleisio
2010		
Erbyn 3 Meh	DU: etholiad cyffredinol	YCIF
6 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF
I'w g'hau	Cymru: refferendwm posib	
I'w g'hau	DU: refferendwm posib	
2011		
5 Mai	Yr Alban: Senedd	SAY
5 Mai	Cymru: Cynulliad Cenedlaethol	SAY
5 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF
5 Mai	Gogledd Iwerddon: Cynulliad	PSD
I'w g'hau	Cymru: refferendwm posib	
I'w g'hau	DU: refferendwm posib	
I'w g'hau	Gogledd Iwerddon: llywodraeth leol	PSD
2012		
3 Mai	Llundain: Cynulliad Llundain	SAY
3 Mai	Llundain: Maerol	PA
3 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF
3 Mai	Cymru: llywodraeth leol	YCIF
3 Mai	Yr Alban: llywodraeth leol	STV
2013		
2 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF

Dyddiad yr etholiad		System bleidleisio
2014		
I'w g'hau	DU: Senedd Ewrop	CG Rhestr [23]
1 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF
2015		
I'w g'hau	DU: Senedd	YCIF
7 Mai	Yr Alban: Senedd	SAY
7 Mai	Cymru: Cynulliad Cenedlaethol	SAY
7 Mai	Lloegr: llywodraeth leol (rhai cynghorau)	YCIF
7 Mai	Gogledd Iwerddon: Cynulliad	PSD
I'w g'hau	Gogledd Iwerddon: llywodraeth leol	PSD

[23] PSD yng Ngogledd Iwerddon

Systemau pleidleisio

YCIF	Y cyntaf i'r felin
SAY	System aelod ychwanegol
PA	Pleidlais atodol
PSD	Pleidlais sengl drosglwyddwy
CG Rhestr	Cynrychiolaeth gyfrannol rhestr

Systemau etholiadol yn y DU

Etholiad i	System bleidleisio	Pwy sydd yng ngofal y fframwaith cyfreithiol?	Pwy sy'n cael eu hethol?	Am ba hyd? (blwyddyn yr etholiad nesaf)	Etholwyr
Senedd y DU (etholiad cyffredinol)	YCIF	Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)	646 o Aelodau Seneddol (AS)	Bob 5 mlynedd o leiaf	45,420,808[24]
Senedd Ewrop	CG Rhestr ym Mhrydain Fawr (PSD yng Ngogledd Iwerddon)	Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)	736 (DU 72) Aelod o Senedd Ewrop (ASE)	5 mlynedd, tymor sefydlog, y nesaf yn 2014)	45,312,626[25] (DU yn unig – Meh 2009)
Cynulliad Gogledd Iwerddon	PSD	Llywodraeth y DU (Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon)	108 Aelod o'r Cynulliad Deddfwriaethol (ACD)	4 blynedd (tymor sefydlog, y nesaf yn 2011)	1,170,296[24]
Senedd yr Alban	SAY	Llywodraeth y DU (Ysgrifennydd Gwladol yr Alban)	129 Aelod o Senedd yr Alban (ASA)	4 blynedd (tymor sefydlog, y nesaf yn 2011)	3,919,219[24]
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	SAY	Llywodraeth y DU (Ysgrifennydd Gwladol Cymru)	60 Aelod Cynulliad (AC)	4 blynedd (tymor sefydlog, y nesaf yn 2011)	2,280,240[24]
Cynulliad Llundain	SAY	Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)	25 Aelod Cynulliad	4 blynedd (tymor sefydlog, y nesaf yn 2012)	5,419,913[26]
Llundain Maerol	PA	Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)	Maer	Llundain 4 blynedd (tymor sefydlog, y nesaf yn 2012)	5,419,913[26]
Cynghorau Lleol	YCIF (Cymru a Lloegr) PSD (Gogledd Iwerddon a'r Alban)	Llywodraeth y DU (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder) ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr; Swyddfa Gogledd Iwerddon ar gyfer etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon; Llywodraeth yr Alban ar gyfer etholiadau lleol yn yr Alban	Mwy na 20,000 o Gynghorwyr	4 blynedd (tymor sefydlog, y rhai nesaf i'w pennu'n lleol)	46,455,890[24]

Mae'r Comisiwn yn chwarae rôl allweddol yn yr holl etholiadau sy'n cael eu cynnal ar draws y DU. Fel rhan o'n rôl, rydym yn:

- cynnal ymgyrchoedd cofrestru[27]
- darparu cyngor ac arweiniad i bleidiau gwleidyddol, trydydd partïon, ymgeiswyr ac asiantau, Swyddogion Canlyniadau (ROs) a Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs)[28]
- gosod a monitro safonau perfformiad i EROs a ROs[29]
- cyhoeddi ffurflenni mewn perthynas ag ariannu pleidiau a'u gwariant yn ystod yr etholiadau (ac eithrio etholiadau llywodraeth leol)
- archwilio honiadau o ddiffyg cydymffurfio
- adrodd ar weinyddiaeth yr etholiad (ac eithrio etholiadau llywodraeth leol)

Systemau Pleidleisio[30]

YCIF	Y cyntaf i'r felin
SAY	System aelod ychwanegol
PA	Pleidlais atodol
PSD	Pleidlais sengl drosglwyddwy
CG Rhestr	Cynrychiolaeth gyfrannol rhestr

[24] Ffynhonnell: Data'r Swyddfa'r Ystadegau Genedlaethol, Rhagfyr 2009.

[25] Ffynhonnell: Comisiwn Etholiadol, wedi'i gasglu fel rhan o ymchwil Etholiadau Senedd Ewrop 2009 gan y Local Government Chronicle Elections Centre, Prifysgol Plymouth.

[26] Ffynhonnell: Crynodeb canlyniadau etholiadau 2008, Grŵp Rheoli a Dadansoddi Data, Awdurdod Llundain Fwyaf, Mai 2008.

[27] Nid yw'r Comisiwn yn cynnal ymgyrch gofrestru ar gyfer llywodraeth leol yn yr Alban.

[28] Nid yw'r Comisiwn yn darparu cyngor ac arweiniad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[29] Ym Mhrydain Fawr yn unig.

[30] Am fwy o wybodaeth am bob system bleidleisio ewch i wefan fymhleidlaisi www.aboutmyvote.co.uk/how_do_i_vote/voting_systems.aspx.

Cysylltu â ni

Rydym yn ymroddedig i weithio gyda rhanddeiliaid i helpu llunio a hysbysu ein cyfeiriad a'n gweithgareddau yn y dyfodol.

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa'r Alban
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
Textphone: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
Textphone: 18001 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholioadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Gogledd Iwerddon
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
Textphone: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Eastern and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0600
easternandsoutheastoffice@
electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs: 020 7271 0505
Textphone: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs: 02476 820001
Textphone: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
Textphone: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs: 01392 314001
Textphone: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online
www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone Fax & E-Mail
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-Call
0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Parliamentary Bookshop
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders/ General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

Customers can also order publications from
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

Democracy matters

We are an independent body set up by the UK Parliament. Our aim is integrity and public confidence in the democratic process. We regulate party and election finance and set standards for well-run elections.

The Electoral Commission
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Tel 020 7271 0500
Fax 020 7271 0505

info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

ISBN 978-0-10-296459-2